| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Presenoldeb<br>Attendance Policy |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Students |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | [Impact Assessment Stage 1] |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | *Is-Bennaeth Ansawdd*<br>*Vice Principal Quality* | | |
| **Ymgynghoriad / Consultation:** | *Cynhwysiant, Gwasanaethau i Fyfyrwyr, Gwasanaethau Academaidd a Chydlynwyr Anogwyr Cynnydd.*<br>*Inclusion, Student Services, Academic Services and Progress Coach Co-ordinators.* | | |
| **Dyddiad cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | *Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *5 Mehefin 2024*<br>*5th June 2024* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | Mehefin 2027<br>June 2027 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

## Tabl Cynnwys

### Polisi Presenoldeb


| | |
|---|---|
| 1. Pwrpas | 2 |
| 2. Cwmpas | 2 |
| 3. Egwyddorion Allweddol | 2 |


### Polisi Presenoldeb

## 1. Pwrpas

Mae presenoldeb yn hanfodol er mwyn llwyddo mewn cyrsiau, sy'n bwysig ar gyfer cyflogaeth ac addysg bellach. Mae prydlondeb yn hanfodol ar gyfer profiadau addysgu a dysgu cadarnhaol ac mae prydlondeb gwael yn effeithio ar yr amgylchedd dysgu. Mae'r coleg wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau i'w profiad coleg a bydd yn darparu cyngor, arweiniad a chymorth. Mae data presenoldeb a phrydlondeb yn cael ei adrodd yn rheolaidd ar draws pob lefel o'r sefydliad ac i Uwch Reolwyr, y Tîm Gweithredol a'r Llywodraethwyr.

## 2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu pob dysgwr llawn amser yn y coleg.

## 3. Egwyddorion Allweddol

3.1 Disgwyliadau Presenoldeb a Phrydlondeb

- Dylai dysgwyr fynychu pob sesiwn wedi'i hamserlennu ar amser a chyrraedd wedi'u paratoi ac yn barod i gychwyn ar amser dechrau'r sesiwn. Bydd y Coleg yn darparu cymorth i ddysgwyr sydd â phresenoldeb isel. Fodd bynnag, os yw'r presenoldeb yn is na'r lefel ofynnol, gall y coleg atal neu dynnu astudiaethau dysgwr yn ôl, oni bai bod rhesymau dilys y cytunwyd arnynt gan y coleg.
- Dylai dysgwyr wneud pob ymdrech i fynychu pob sesiwn wedi'u trefnu, gan gynnwys sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein lle cânt eu darparu.
- Dylai dysgwyr hysbysu'r coleg os na allant fynychu'r wers, cyn gynted â phosibl drwy'r dulliau mwyaf effeithiol. Dylai hyn fod trwy ap y myfyriwr yn y lle cyntaf.
- Lle bo'n ymarferol, dylai cydweithwyr anelu at gofnodi presenoldeb o fewn 20 munud cyntaf dechrau'r wers.

3.2 Taliadau Seiliedig ar Bresenoldeb:

- Gall absenoldebau effeithio ar gymorth ariannol fel taliadau Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLlC).
- Mae myfyrwyr cymwys yn cael taliadau am bresenoldeb llawn. Mae absenoldeb yn gofyn am dystiolaeth. Darperir cymorth o dan yr amgylchiadau hyn gan y Gwasanaethau Myfyrwyr.

- Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â thaliadau drwy'r Gwasanaethau Myfyrwyr.

3.3 Cymorth i ddysgwyr sydd â rhwystrau presennol i bresenoldeb a/neu brydlondeb:

- Dylai dysgwyr rannu gwybodaeth a allai effeithio ar bresenoldeb a phrydlondeb cyn gynted â phosibl, gan gynnwys wrth wneud cais. Er enghraifft, anghenion iechyd neu lesiant neu gyfrifoldebau gofalu. Gall Gwasanaethau i Ddysgwyr a Chynhwysiant gefnogi hyn a bydd addasiadau rhesymol yn cael eu hystyried.

3.4 Cymorth i ddysgwyr gyda materion presenoldeb/prydlondeb sy'n dod i'r amlwg:

- Dylai dysgwyr roi gwybod am unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg cyn gynted â phosibl. Gellir rhoi gwybod am hyn i anogwyr cynnydd neu i'r gwasanaethau i fyfyrwyr. Gall materion gynnwys (heb eithrio) iechyd meddwl a llesiant, newidiadau mewn trefniadau byw, amgylchiadau teuluol.
- Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i gyrchu gwasanaethau cymorth mewnol ac allanol.
- Os nad yw dysgwr yn mynychu oherwydd materion yn ymwneud â bwlio neu aflonyddu, bydd y coleg yn ceisio datrys hyn yn rhagweithiol fel blaenoriaeth, yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Gwrth-Aflonyddu, Bwlio a Throseddau Casineb Myfyrwyr.
- Bydd y coleg yn gwneud pob ymdrech i ddarparu addasiadau rhesymol i gefnogi'r dysgwr a sicrhau llwyddiant ar eu rhaglen ddysgu.
- Mewn rhai achosion, gallai'r dysgwr gael eu tynnu o'r coleg dros dro i ganiatáu amser iddynt oresgyn eu rhwystrau i addysg. Bydd hyn yn cael ei drafod yn llawn gyda'r dysgwr cyn gwneud unrhyw benderfyniadau a bydd cymorth ar gael, yn unol â'r Polisi Myfyrwyr sy'n Ailymuno.

3.5 Gwobrwyo Presenoldeb:

- Bydd dysgwyr sydd â phresenoldeb da neu well yn cael eu cydnabod a'u cyflawniadau yn cael eu cofnodi.
- Rhaid i gydweithwyr fanteisio ar bob cyfle i gydnabod ymdrechion o ran presenoldeb a phrydlondeb. Bydd hyn yn canolbwyntio ar yr unigolyn a dylai ganolbwyntio ar gynnydd yn erbyn ymdrechion blaenorol. Er enghraifft, lle mae dysgwr wedi goresgyn rhwystr ac yn gwneud cynnydd cadarnhaol.

3.6 Trefniadau Prawf:

- Gall dysgwyr sydd â phroblemau presenoldeb difrifol / hysbys (dysgwyr dilyniant fel arfer) gael eu cefnogi drwy gynllun gweithredu a/neu gyfnod prawf cyn cofrestru, ac yn dilyn hynny.
- Bydd y Coleg yn cefnogi dysgwyr drwy'r Polisi Ailymgysylltu â Myfyrwyr os ydynt wedi tynnu'n ôl o'r blaen neu wedi cael anawsterau blaenorol gyda phresenoldeb neu brydlondeb. Mae hyn yn debygol o gynnwys camau gweithredu clir a chyfnod prawf

3.7 Dysgwyr sy'n Rhoi'r Gorau i Fynychu:

- Bydd y Coleg yn gwneud ymdrech i gysylltu â dysgwyr sy'n rhoi'r gorau i fynychu. Mewn rhai achosion, gellir gwneud atgyfeiriad at ddiogelu. Os nad oes cyswllt â'r dysgwr na'r unigolyn priodol a nodwyd am bedair wythnos, gall y coleg dybio bod y dysgwr wedi gadael a'u tynnu'n ôl o'u rhaglen astudio.

3.8 Monitro ac Adrodd ar Ddata Presenoldeb

- Rhaid i Reolwyr Cwricwlwm, Timau Cwricwlwm a chydweithwyr Cymorth perthnasol fonitro data presenoldeb yn rheolaidd i gefnogi dysgwyr yn briodol a gwneud y mwyaf o'u llwyddiant.